# Nos Da Pathew

***Stori'r Pathew***

Gan Sarah Hancock

Fin nos yn y coed
A ninnau'n mynd ar antur
Rhaid i ni gadw'n dawel
I glywed rhai bach yn chwyrnu ym myd natur.

Beth sydd yna yn y berthi?
Gwelais rywbeth wir!
Beth wyt ti wedi gweld?
Dere draw fan hyn, ac fe ddaw yn glir.

Mewn nyth bach crwn
O ddail a rhisgl gwiddfid
Dyna nhw, tu mewn yn saff,
Yn cysgu'n wyn eu byd

Mae'n oer tu fas, mae'n aeaf
Ac eira'n chwyrlio yn yr awel
Does dim dail ar ganghennau'r coed,
Mae'n rhewllyd ac yn dawel.

Ond tu mewn i'r  nyth,
mae pawb yn cadw'n gynnes,
Am chwech mis cyfan mae'r  nyth bach hwn
Yn ddiogel, yn saff, fel ynys.

Pwy sy'n cuddio yn y  nyth?
Pwy sy'n cysgu'n braf?
Awn ni draw i weld
Gawn ni aros am sbel fach

Mae newid ar y ffordd
Dychwelyd fydd y dail
Yn fuan bydd y canghennau oer
Yn cael gwres eto gan yr haul

Bydd egin yn ymddangos
Bydd pethau'n dechrau tyfu
Blodau a ffrwythau newydd,
Bob tro mae'r haul yn codi

Mae'r gwanwyn wedi dod
Mae'n oleuach nawr o lawer
Ond ble mae ein ffrind bach?
Mae'n rhy swil i ddod allan i'r awyr.

Neu falle, yn achos y creadur hwn
Dim ond yn y nos mae'n crwydro
Creadur nosol dan olau leuad
Neu ydw i'n dechrau mwydro?

Mae'r golau yn fuan yn diflannu
Dyma'r sêr yn goleuo'r nen
Mae'r haul wedi hen fachlud nawr
Ac o'r diwedd mae'n codi ei ben

Yng ngolau'r nos rydyn ni'n ei weld e
Euraidd yw lliw ei flew
Mae ei lygaid yn fawr ac yn ddu
A'i gynffon yn hir ac yn dew.

Mae'n edrych fan hyn a fan draw
O'i dŷ o risgl gwiddfid
Mae'n mynd i ddod allan nawr
A gwelwn mai pathew ydy.

Shwmae greadur bach
Oeddet ti mor, mor gysglyd!

Yn cysgu drwy gydol y gaeaf
Rhaid nawr dy fod ti'n llwglyd.

Mae ein pathew bach yn arogli
Mae'n amser gadael y  nyth
Mae'n amser cael tamaid blasus
Ar ôl cysgu'r gaeaf maith.

Mae'r pathew bach yn dechrau dringo
Drwy ganghennau pob un goeden
Mae'n chwilio am fwydydd blasus
Mae'n hoff o hadau a mwyar duon.

Mae'n ymlwybro, mae'n ofalus
Yn ddistaw, ddistaw bach
Yn uchel, yn igam-ogam
Heb gwympo na mynd i strach.

Hwre, dyma wledd o ffrwythau
Mae mor hapus mae'n dechrau gwenu
Fesul un mae'n eu bwyta nhw i gyd
Nes bod ei fola'n llenwi

Nesaf mae gweld cnau cyll
ac mae'r rhain yn mynd yn sydyn
Ac yn olaf, blodau'r ddraenen wen
Mae'n mynd i gael i'w bwdin.

Mae'r haul yn dechrau gwawrio
Ac mae wedi blino, wedi colli nerth
Gyda bola llawn ac yn fodlon,
Mae'n mynd i'w wely yn y berth.

Mae'n wanwyn nawr
A bob nos mae'n dilyn yr un drefn
Yn bwyta swper dan y sêr,
Yn mwynhau byw yn ei gynefin.

Yn fuan bydd y coetir yn newid eto
O wanwyn i ddiwrnodau hafaidd, cynnes
Ac yna daw gwyntoedd hydrefol
Ac i'r dail, newid lliw fydd eu hanes.

Mae'r dyddiau cynnes yn rhai braf
Mae'r pathew bach yn llawen
A nawr mae'n dad i fabis bach
maen nhw'n annwyl, pob un bawen.

Llygaid bach a wisgers
Clustiau, cynffonau a thraed,
Byddan nhw'n dibynnu ar ein ffrind
Am ddiogelwch ac am damaid.

Mae un deg wyth diwrnod yn mynd heibio
a dyma eu llygaid bach yn agor
Ar ôl wyth wythnos o dyfu
Mae anturiaethau yn eu haros.

Mae awyr oerach yn cyfarch y coed
Mae'r dail yn cwympo nawr
Yn chwyrlio'n araf o'r gangen,
Yn araf deg yn cyrraedd y llawr.

Oren, brown, aur a choch
Mae casglu'r rhain yn bleser
Fyddan nhw ddim yn aros yn hir
Yn fuan daw glaw, eira a chesair.

Nawr mae'n bryd i'r pathew bach
gasglu gwair a dail

A'u rholio'n belen glud
a'u cuddio yn y coed, yn gudd o'r haul.

Mae'n rhedeg drwy ganghennau'r berthi
Un ddeilen, dwy, tair a mwy
Gwair i adeiladu  nyth bach clud
Unwaith eto i guddio a ffoi.

Daw'r gaeaf cyn bo hir
Pathew bach, gwna dy hud a lledrith
Yn y llwyni trwchus.
Dal ati i adeiladu dy  nyth

Mae'r pathew yn gweld y lle
Mae'n gwybod fydd yn berffaith wir,
i gadw'n ddiogel ac yn glud
Drwy gydol y gaeaf hir.

Mae'n paratoi i gysgu nawr
Wrth i'r coetir droi'n wyn,
Mae'n mynd i mewn i'w  nyth
ac yn cau ei lygaid yn dynn

Dyma flwyddyn arall wedi mynd
Gaeaf, gwanwyn, a wedyn haf
Mae ei feddwl yn dechrau crwydro nawr
I freuddwydio breuddwyd braf

Bob blwyddyn pan mae'n deffro
O'i drwmgwsg hir,
Mae'r coetir yn dal yn ddiogel ac yn saff
I gael tamaid a chrwydro'r tir.

Bydd y berthi'n wyrdd unwaith eto
A llawn dail a llawer o hwyl
Os nad yw bodau dynol yn eu torri
Yn gadael y lle'n wag ac yn foel.

Heb y coed, y berthi a'r dail,
Does dim lle i'r pathew i fyw
Dim bwyd a dim ffrindiau'n agos
Dim dail sy'n newid eu lliw.

Bydd y pathew'n breuddwydio nawr
Tan fod hi'n amser deffro 'to
Pwy a ŵyr sut fydd y coetir
Chwech mis yn ddiweddarach yn y fro.

Cysga nawr, un bach,
Yn ddiogel mewn  nyth o risgl gwiddfid,
Dyma ni'n gadael ti am y tro,
Yn gynnes, yn glud, ac yn wyn dy fyd.

Fin nos yn y coed
Ni wedi mynd ar antur
Aethon ni'n araf deg ac yn dawel
I glywed rhai bach yn chwyrnu ym myd natur.